

Cylchgrawen

HWYLY NADOLIG

2024

MALI ANN REES

Sgwrs gyda'r actores

**SIALENS MIS
IONAWR**

Dych chi'n barod?

CREFFTAU

Creu crefft Nadolig



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAG

Dysgu
Learn



CROESO

Nadolig Llawn iawn i chi!

Dych chi'n hoffi darllen?

Mae darllen cylchgrawn yn ffordd dda o fwynhau eich Cymraeg.

Mae llawer o bethau yn y cylchgrawn. Beth am wneud y posau? Neu beth am wneud crefft Nadolig?

Yn Ionawr, bydd cyrsiau Dysgu Cymraeg newydd yn dechrau. Bydd y cyrsiau yma i ddechreuwr. Oes ffrindiau gyda chi sy eisiau dysgu Cymraeg? Beth am ddweud wrth eich ffrindiau am y cyrsiau yma?

*Hwyl am y Tro,
Dona*

Dona Lewis
Prif Weithredwr y Ganolfan
Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Yn Ionawr, bydd cyrsiau newydd i ddechreuwr yn dechrau. Eisiau mwy o wybodaeth? Dilynwch y ddolen yma: dysgucymraeg.cymru

GEIRFA NADOLIG

Blwyddyn Newydd Dda – Happy New Year

cannwyll – candle

carw – reindeer

celyn – holly

cloch – bell

dyn eira – snowman

ffair Nadolig – Christmas fair

hosan Nadolig – Christmas stocking

Nadolig Llawn – Merry Christmas

papur lapio – wrapping paper

pluen eira – snowflake

torch – wreath

uchelwydd – mistletoe

Do you know someone who'd like to learn Welsh? New courses for beginners are starting in January – go to learnwelsh.cymru for more information.

CYNNWYS

4-5 Sgwrs efo Sawna Bach

6-7 Canu mewn côr

8-9 Helo Kierion

10-11 Sialens mis Ionawr

12-13 Helo Mali Ann Rees

14-15 Gemau Rygbi'r Chwe Gwlad

16-17 Canu Plygain

18-19 Crefft Nadolig

20-21 S4C a BBC Radio Cymru

22-23 Nadolig Llawen!

24-25 Posau

26-27 Ymarfer siarad Cymraeg

4-5



14-15



18-19



22-23



SGWRS EFO SAWNA BACH

Dach chi wedi bod mewn sawna tu allan? Mae gan gwmni Sawna Bach ddau sawna tu allan. Mae un sawna ym Mhorth Tyn Tywyn, wrth ymyl Rhosneigr, Ynys Môn, ac un arall yn Llanberis. Mae Caro, Jen ac Alex wedi agor y ddau sawna. Mae'r tri yn dysgu Cymraeg.

Dan ni wedi siarad efo Caro...

Pam agor sawna?

Dw i'n dod o'r Almaen, a dw i wedi byw yn Sgandinafia hefyd. Yn Sgandinafia, roedd sawna tu allan ym mhob man. Ro'n i'n hoffi defnyddio sawna poeth, ar ôl nofio mewn dŵr oer.

Ar ôl symud i Gymru, mi wnes i gyfarfod Jen. Roedd Jen wedi cychwyn busnes o'r blaen. Mi wnaeth Jen a fi **benderfynu** agor Sawna Bach. Mi wnaeth Alex, sy'n **saer coed**, **adeiladu**'r sawnas.

Ble mae Sawna Bach Rhosneigr?

Mae'r sawna yn edrych dros y môr. Mae pobl yn gallu nofio yn y môr, a mynd yn syth mewn i sawna poeth.

Ble mae Sawna Bach Llanberis?

Mae'r sawna tua 50m o Lyn Padarn. Mae'r sawna yn edrych ar fynyddoedd Eryri. Dach chi'n gallu gweld yr Wyddfya o'r sawna.



Llun: Jen, Alex a Caro - sawna Sir Fôn

Pwy sy'n defnyddio'r sawna?

Mae 66% o gwsmeriaid yn byw yn lleol. Mae 30% o gwsmeriaid yn dod i'r sawna yn aml.

Pam mae mynd i sawna yn dda?

Mae sawna yn gallu bod yn dda i iechyd y galon, ac mae'n gallu **ymladd** firws, fel ffliw. Mae llawer yn meddwl bod sawna yn gwella **iechyd meddwl** hefyd.

Dach chi'n defnyddio'r Gymraeg yn y busnes?

Mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Mae staff y busnes yn dysgu, neu'n siarad Cymraeg. Cyn bo hir, bydd gwefan **ddwyieithog** y busnes yn barod.

Eisiau mwy o wybodaeth? Dilynwch y ddolen yma:
Spa Day North Wales | Sawna Bach - The Scenic Sauna | Cymru



Llun: Sawna Llanberis

GEIRFA

penderfynu - to decide
saer coed - carpenter
adeiladu - to build
ymladd - to fight
iechyd meddwl - mental health
dwyeithog - bilingual

Have you ever been to a scenic sauna? Caro, Jen and Alex are the owners of woodfired-saunas located in Rhosneigr, on Anglesey, and on the shores of Lake Padarn in Llanberis. Read about their new venture, and the benefits of using a sauna, in this article.

CANU MEWN CÔR

GEIRFA

cystadleuaeth – competition
gwirfoddoli – to volunteer
arweinydd – leader
esbonio – to explain
geirfa – vocabulary

Dych chi'n hoffi canu? Dych chi'n canu mewn côr?

Mae canu mewn côr yn ffordd dda o ymarfer Cymraeg. Yn Eisteddfod Pontypridd, roedd **cystadleuaeth** corau i ddysgwyr. Pwy wnaeth ennill?

Yn gyntaf: Côr y Cymoedd

Yn ail: Côr Dysgôr o Gaerdydd

Yn drydydd: Côr Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe

Yma, 'dyn ni'n siarad â dysgwyr oedd yn canu yn y tri chôr...

Côr Dysgwyr y Cymoedd

Enw: Becca Hinton

Y peth gorau am ddysgu Cymraeg?

Gwneud ffrindiau, **gwirfoddoli** yn Tafwyl ac yn yr Eisteddfod.

Pam canu gyda'r côr?

Ro'n i eisiau ymarfer siarad Cymraeg gyda dysgwyr eraill. Ro'n i eisiau cymryd rhan yn yr Eisteddfod hefyd!

Ydy'r côr yn helpu chi i ymarfer Cymraeg?

Ydy, dw i'n dysgu rhywbeth newydd bob wythnos. Mae'r **arweinydd** yn **esbonio** geiriau'r gân yn dda iawn.

Beth fydd hanes y côr yn 2025?

Mwy o ganu, a llawer o hwyl yn Gymraeg!

Llun: Côr Dysgwyr y Cymoedd



Llun: Becca Hinton, Côr Dysgwyr y Cymoedd



Llun: Dysg-Gôr ar y llwyfan



Llun: Wayne Davies, Dysg-Gôr

Dysg-Gôr

Enw: Wayne Davies

Y peth gorau am ddysgu Cymraeg?
Sgwrsio llawer, a dysgu mwy am hanes Cymru.

Pam canu gyda'r côr?

Mae Siân, fy ngwraig yn canu yn y côr hefyd. 'Dyn ni'n mwynhau mynd gyda'n gilydd.

Ydy'r côr yn helpu chi i ymarfer Cymraeg?

Yn y côr, dw i'n dysgu **geirfa** newydd. Mae fel gwers Gymraeg arall bob wythnos, am ddim!

Beth fydd hanes y côr yn 2025?

Eisteddfod Wrecsam... efallai!

Côr Dysgwyr ABA

Enw: John Howells

Y peth gorau am ddysgu Cymraeg?

Siarad Cymraeg gyda ffrindiau newydd.

Pam canu gyda'r côr?

Ro'n i eisiau canu gyda'r côr i ymarfer siarad Cymraeg.

Ydy'r côr yn helpu chi i ymarfer Cymraeg?

Ydy, achos dw i'n ymarfer siarad Cymraeg gyda dysgwyr eraill. Dw i hefyd wedi dysgu llawer am ganeuon Cymraeg.

Llun: John Howells, Côr Dysgwyr ABA



Llun: Côr Dysgwyr ABA



Beth fydd hanes y côr yn 2025?

Cwestiwn da - 'dyn ni ddim yn siŵr eto!

Do you sing in a choir? Singing in a choir is a good way to practise your Welsh. At the National Eisteddfod in Pontypridd, there was a competition for Learn Welsh choirs. Here, we chat to members from choirs who were awarded first, second and third place.

HELO KIERION

Mae Kierion Lloyd yn dod o Aberhonddu, ond mae'n byw yn Wrecsam rŵan.

Dyma hanes Kierion...

Pam dysgu Cymraeg?

Pan o'n i'n fach, roedd fy nhad yn gweithio yn y fyddin. Roedd y teulu yn symud llawer, felly roedd ymarfer Cymraeg yn anodd. Dw i'n dysgu Cymraeg ers chwe blynedd. Dw i'n teimlo fel Cymro rŵan!

Ble wyt ti'n siarad Cymraeg?

Dw i'n hoffi cerddoriaeth a dw i'n hoffi mynd i gigs. Dw i'n mynd i Tafwyl, Sesiwn Fawr Dolgellau a'r Eisteddfod Genedlaethol bob blwyddyn. Dw i'n hoffi siarad Cymraeg yn y gigs. Dw i eisiau byw fy mywyd yn Gymraeg.

Llun: Francesca Sciarrillo, Kierion a Harri Evans yn Sesiwn Fawr Dolgellau



Llun: Kierion Lloyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol

GEIRFA

byddin – army
cymuned – community
cyfeillgar – friendly
cefnogol – to support
crwydro – to wander
cyngor – advice
cer amdani – go for it

Beth ydy'r peth gorau am ddysgu Cymraeg?

Cymuned. Pan dw i'n mynd i gigs, mae pawb mor gyfeillgar. Pan dw i'n dweud fy mod i'n dysgu Cymraeg, mae pawb yn gefnogol iawn.

Beth ydy dy ddiddordebau?

Dw i'n hoffi cerddoriaeth, a dw i'n hoffi cerdded yn y mynyddoedd. Dw i'n hoffi crwydro Cymru a bod tu allan.

Oes gen ti gyngor i bobl sy'n dysgu Cymraeg?

Os oes gen ti ychydig bach o Gymraeg, yna siarada'r iaith. Cer amdani!

Beth wyt ti isio gwneud dros y Nadolig?

Dw i isio gweld y teulu, a dw i isio ymlacio a gwyllo ffilmiau fel *Home Alone*.

Here, we talk to Kierion Lloyd about his Welsh language journey. Kierion, from Brecon, began learning Welsh six years ago, as he wanted to reconnect with his roots. He immerses himself in the language by attending Welsh music festivals and gigs.



Llun: Hannah Wright, Kierion, Carys Hodgins ac Eirian Conlon yn yr Eisteddfod Genedlaethol

DYCH CHI'N BAROD AM SIALENS MIS IONAWR?

“Dros 160,000 wedi cymryd rhan ar draws y byd”



GEIRFA

tasg greadigol – creative task
llysgenhadon – ambassadors
cefnogaeth – support
annog – to encourage
cysondeb – consistency
amserlen – timetable

Lluniau: Donna Ford

Weithiau, mae mis Ionawr yn dywyll, oer a gwlyb.

Ond yn Ionawr 2025, beth am wneud sialens wahanol bob dydd?

Dych chi wedi clywed am *64 Million Artists*? Mae *64 Million Artists* yn trefnu sialens yn Ionawr. Y sialens ydy gwneud 31 **tasg greadigol**, un bob dydd.

Beth ydy'r tasgau? Ysgrifennu stori, neu ddawnsio fel robot tra'n brwsio dannedd – a llawer mwy!

Mae **llysgenhadon** wedi dewis y tasgau. Pwy ydy'r llysgenhadon? Awduron, artistiaid a pherfformwyr o bob rhan o Brydain.

Mae Siân Northey yn un o'r llysgenhadon. Mae Siân yn awdur ac yn byw ym Mhenrhyndedraeth, gogledd Cymru.

Bydd Siân yn trefnu sesiwn bob wythnos i ddysgwyr ym Mlaenau Ffestiniog. Bydd hi hefyd yn trefnu sesiwn ar-lein, i bawb sy'n gwneud y sialens.



Beth am wneud y sialens ar-lein? Neu beth am wneud y sialens mewn grŵp?

Sialens Ionawr 2024 – beth oedd pawb yn hoffi?

- **Cefnogaeth:** Roedd pobl yn hoffi cefnogi ei gilydd, a rhannu syniadau.
- **Dewis da:** Rhywbeth i bawb, a siawns i drïo pethau newydd.
- **Datblygiad personol:** Roedd y sialens wedi **annog** pobl i fod yn fwy creadigol.
- **Cysondeb:** Roedd pobl yn hoffi cael **amserlen**, a gwneud tasg bob dydd.
- **Hwyl:** Roedd pobl yn cael hwyl wrth wneud y sialens.

Eisiau mwy o wybodaeth?

Dilynwch y ddolen yma:

64 Million Artists – The January Challenge

HER
LONAWR

64 Million
artists

64 Million Artists is a campaign which invites everyone in the UK to explore their creative potential by completing 31 creative tasks in January. Those who completed the challenge in 2024 said they loved sharing ideas, and trying new things. For more information follow the next link - 64 Million Artists – The January Challenge



Mali Ann Rees is an actress and starred in S4C's recent crime drama, Cleddau. In this interview, she talks about her favourite place in Wales, where she likes to have her morning coffee and Christmas!

HELO MALI ANN REES

Mae Mali Ann Rees yn actores ac yn dod o Gaerdydd.

Dych chi wedi gweld cyfres ddrama Cleddau? Roedd Mali yn actio yn Cleddau ar S4C. Dych chi'n gallu gwyllo Cleddau ar BBC iplayer ac S4C Clic.

Yma, 'dyn ni'n siarad â Mali...

Oes hoff le yng Nghymru gyda ti?

Dw i'n hoffi Aberporth, Ceredigion. Mae fy mam-gu a thad-cu yn byw yno.

Oes hoff gaffi gyda ti?

Dw i'n hoffi caffi yn Nhreganna, Caerdydd o'r enw Workhorse. Dw i'n hoffi gweithio yno gyda phaned.

Oes hobiau gyda ti?

Dw i'n hoffi gwyllo gigs a mynd i'r theatr. Dw i hefyd yn hoffi mynd i Tafwyl bob blwyddyn.

Wyt ti'n hoffi'r Nadolig?

Ydw, dw i'n hoffi treulio amser gyda theulu a ffrindiau.

Oes gen ti hoff anrheg Nadolig?

Pan o'n i'n chwech oed, ges i *keyboard*. Dysgais i sut i chwarae'r piano gyda'r *keyboard*.

Beth ydy dy hoff fwyd yn y cinio Nadolig?

Y stwffin cig - mae'n flasus iawn!

GEIRFA

treulio amser - to spend time
blasus - tasty

GEMAU RYGBI'R CHWE GWLAD

Dych chi'n hoffi rygbi? Ym mis Ionawr, bydd gemau'r Chwe Gwlad yn dechrau. Beth am wylio'r gemau ar S4C?

Cofiwch am y dyddiadau yma...

Gemau'r dynion:

Ffrainc v Cymru - 31/01/25 - 8.15yh
Yr Eidal v Cymru - 08/02/25 - 2.15yp
Cymru v Iwerddon - 22/02/25 - 2.15yp
Yr Alban v Cymru - 08/03/25 - 4.45yp
Cymru v Lloegr - 15/03/25 - 4.45yp

Gemau'r merched:

Yr Alban v Cymru - 22/03/25 - 4.45yp
Cymru v Lloegr - 29/03/25 - 4.45yp
Ffrainc v Cymru - 12/04/25 - 12.45yp
Cymru v Iwerddon - 20/04/25 - 3.00yp
Yr Eidal v Cymru - 26/04/25 - 2.30yp

Beth am ddysgu'r geiriau yma?

cais - try
codi - to lift
carfan - squad

buddugoliaeth - win
chwaraewr - player
gôl adlam - drop goal

cic gosb - penalty kick
hyfforddwr - coach
trosiad - conversion



HELO YUSUF

Yma, 'dyn ni'n siarad â Yusuf Bille. Mae'n gweithio i'r Urdd yn trefnu **digwyddiadau** chwaraeon i blant a phobl ifanc. Mae Yusuf yn dysgu Cymraeg ers blwyddyn.

Pam dysgu Cymraeg?

Dw i'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Ro'n i eisiau gallu siarad Cymraeg â nhw.

Oes gen ti hoff chwaraeon?

Pêl-droed. Mae'n **gyffrous!** Dw i'n caru sut mae'n dod â phobl at ei gilydd, fel yn 'Cwpan y Byd.'

Wyt ti'n hyfforddi rygbi nawr?

Ydw. Dw i'n hoffi helpu pobl eraill i wella, a chael mwy o **hyder** ar y cae.

Beth wyt ti'n ei feddwl fydd yn digwydd yn y Chwe Gwlad?

Cwestiwn anodd! Gobeithio bydd Cymru yn chwarae yn dda.



Llun: Yusuf Bille

GEIRFA

digwyddiadau - events
cyffrous - exciting
hyfforddi - to coach
hyder - confidence

The 2025 Six Nations Rugby fixtures have been announced. All of Wales' games will be broadcast on S4C. Here, we chat to Yusuf, who works for the Urdd, providing sports activities for children and young people. Yusuf has been learning Welsh for over a year.

CANU PLYGAIN

Dych chi wedi clywed am ganu **Plygain**? 'Dyn ni wedi siarad â Ceris Gruffudd am ganu Plygain...

Beth ydy'r Plygain?

Gwasanaeth ydy'r Plygain. Mae pobl yn canu Plygain amser y Nadolig. Mae gwasanaeth Plygain mewn capel neu eglwys, ac mae pobl yn canu heb **gyfeiliant**. Mae geiriau'r carolau yn sôn am eni Iesu Grist, ac am Iesu'n marw ar y groes.

Pryd mae'r gwasanaethau?

O'r blaen, roedd y gwasanaethau yn y bore. Ond nawr, maen nhw yn y nos, fel arfer ar nos Sul.

Faint o wasanaethau Plygain sy yng Nghymru?

Mae gwasanaethau Plygain ym mhob rhan o Gymru. Yn 2023/2024, roedd 54 o wasanaethau Plygain. Mi wnaeth Cymry yn Lloegr drefnu dau wasanaeth. Eleni, bydd Cymry ym Melbourne, Awstralia yn trefnu un hefyd.

Pam mae canu Plygain yn bwysig?

Mae canu Plygain yn arbennig i Gymru. Mae'n bwysig iawn cario ymlaen i ganu Plygain.

Ble mae'r gwasanaethau?

Mae gwybodaeth am y gwasanaethau ar-lein. Neu beth am edrych yn eich papur bro? Dych chi'n gallu clywed canu Plygain ar YouTube a Spotify hefyd.

Eisiau mwy o wybodaeth? Dilynwch y ddolen yma: www.plygain.org



Lluniau: William Howells



GEIRFA

plygain - evening carol service
gwasanaeth - service
cyfeiliant - accompaniment



Llun: Triawd y Tabernacl

Are you familiar with traditional Plygain singing? Ceris Gruffudd specialises in the subject and here, he talks about the Plygain's history, tradition and significance.

CREFFT NADOLIG

Dych chi'n hoffi gwneud crefftau? Mae'r Nadolig yn amser da i wneud crefftau.

Mae Angharad Samuel yn hoffi gwneud crefftau. Mae hi'n gwneud crefftau ar y teledu.

Mae Angharad ar Prynawn Da ar S4C. Dych chi wedi gweld hi ar Prynawn Da? Mae Prynawn Da ymlaen ar S4C bob dydd Llun i ddydd Gwener, am 2yp.

Mae hi'n rhannu crefftau ar Instagram hefyd. Os dych chi ar Instagram, beth am ddilyn @angharadhome.



Llun: Angharad ar Prynawn Da

Mae Angharad yn dangos i ni sut i wneud crefft ar gyfer y goeden Nadolig...

Pa offer dych chi ei angen?

- cardfwrdd
- gwlan
- rhaff
- siswrn
- glud cryf

GEIRFA

- cardfwrdd - cardboard
- gwlan - wool
- rhaff - rope
- glud cryf - strong glue
- dolen - loop
- aros yn ei le - stay in place



Cam 1

Gwnewch siâp coeden Nadolig ar gardfwrdd.

Cam 2

Torrwch y goeden gyda siswrn.

Cam 3

Gludwch ddarn bach o wllân i dop y goeden, i greu dolen.

Cam 4

Rhowch wllân o gwmpas y goeden. Rhowch lud ar y goeden, i'r gwllân aros yn ei le.

Cam 5

Rhowch raff o gwmpas y siâp sgwâr. Rhowch lud ar y siâp sgwâr, i'r rhaff aros yn ei le.

Cam 6

Gorffennwch y goeden fel dych chi ei eisiau. Beth am roi blodau fel fi?

Cam 7

Rhowch y grefft ar eich coeden Nadolig!

Angharad Samuel loves making homemade crafts, and shows us how to create a Christmas decoration. Why not give it a go, and put it on your Christmas tree? Angharad can be seen on Prynawn Da on S4C making crafts using household items, and shares more tips on her Instagram page @angharadhome.

S4C A BBC RADIO CYMRU

Beth sy ar S4C a BBC Radio Cymru dros y Nadolig?



Llun: Y Llais

S4C + Clic / iPlayer

Ar y Ffin (29 Rhagfyr, 9yh)

Drama newydd ydy Ar y Ffin. Bydd chwe rhaglen i gyd. Mae Erin Richards a Tom Cullen yn actio yn Ar y Ffin.

Amour a Mynydd (1 Ionawr, 9yh)

Bydd deg person sengl yn aros gyda'i gilydd yn yr Alpau, Ffrainc. Bydd y deg yn aros mewn chalet yn y mynyddoedd.

Gwladfa: Gwilym Bowen Rhys (6 Ionawr, 8yh)

Rhaglen am y rhannau Cymreig o Batagonia. Beth am wyllo i ddysgu mwy am Y Wladfa?

Y Llais (9 Chwefror, 8yh)

Mae *The Voice* yn dod i Gymru - Y Llais. Mae Siân Eleri yn **cyflwyno**. Mae Bryn Terfel, Bronwen Lewis, Yws Gwynedd ac Aleighcia Scott yn eistedd yn y seddi coch.

BBC Radio Cymru + BBC Sounds

Ar Blât

Bydd Beca Lyne-Perkis yn siarad â mam a merch. Bydd hi'n siarad â Linda Griffiths a Lisa Angharad am fwyd.

Aled Hughes

Bore Nadolig, bydd Aled Hughes ar y radio. Bydd llawer o gerddoriaeth Nadoligaidd ar y rhaglen. Beth am wrando rhwng 8-11yb?

Eden (BBC Sounds)

Dych chi'n hoffi'r grŵp merched, Eden? Bydd Eden yn gwneud cyngerdd gyda **Cherddorfa** Genedlaethol Gymreig y BBC.



Llun: Ar y Ffin



Llun: Amour a Mynydd



Llun: Gwladfa: Gwilym Bowen Rhys

Here are a few of the highlights that will be on S4C and BBC Radio Cymru over Christmas and the New Year. If you miss them live, you can always watch or listen again on BBC iplayer, BBC Sounds or S4C Clic.

GEIRFA

cyflwyno - to present
cerddorfa - orchestra

NADOLIG LLAWEN!

Chwilio am anrheg Nadolig? Beth am un o'r rhain?

Jin Talog - David Thomas

Pam dysgu Cymraeg?

Doedd dim Cymraeg yn y tŷ pan o'n i'n fach. Ro'n i'n byw yn Lloegr am amser hir, cyn symud yn ôl i Gymru yn 2016, a dechrau dysgu Cymraeg. Dw i'n hoffi defnyddio'r Gymraeg yn y busnes, a gyda ffrindiau.

Ydy'r Gymraeg yn bwysig i'r busnes?

Ydy, mae pobl yn hoffi prynu'r jin yn Gymraeg. Ers i mi ddysgu Cymraeg, mae llawer o bobl newydd wedi dod at Jin Talog.

Dych chi'n brysur amser y Nadolig?

Mae pobl yn hoffi prynu jin amser y Nadolig! 'Dyn ni'n postio jin i bob rhan o Brydain, ac ar draws y byd.

Eisiau mwy o wybodaeth? Dilynwch y ddolen yma: www.jintalog.wales

GEIRFA

ysbrydoli - to inspire
diwylliant - culture
gwerthu - to sell

Llun: David Thomas



Llun: Joshua Morgan

Sketchy Welsh - Joshua Morgan

Pam dysgu Cymraeg?

Dysgais i Gymraeg pan o'n i'n byw yn Ne Affrica. Ro'n i wedi dysgu'r iaith 'Isixhosa' yno, felly ro'n i eisiau dysgu Cymraeg hefyd.

Ydy'r Gymraeg yn bwysig i'r busnes?

Ro'n i'n tynnu lluniau, i helpu fi i ddysgu Cymraeg. Mae popeth wedi cael ei **ysbrydoli** gan yr iaith Gymraeg.

Dych chi'n brysur amser y Nadolig?

Ydw, dw i'n gwneud cardiau Nadolig bob blwyddyn.

Eisiau mwy o wybodaeth? Dilynwch y ddolen yma: www.sketchywelsh.com

Siop Dwt - Helen Rose-Jones

Pam dysgu Cymraeg?

Ro'n i eisiau deall mwy am **ddiwylliant** Cymru.

Ydy'r Gymraeg yn bwysig i'r busnes?

Dw i'n dysgu Cymraeg, felly dw i'n gwybod beth mae dysgwyr eisiau. Dw i'n rhoi pethau mewn bocsys, fel llyfr, cylchgrawn a bwyd o Gymru.

Dych chi'n brysur amser y Nadolig?

Ydw, achos mae pobl yn prynu anrhegion i deuluoedd a ffrindiau. Dw i'n **gwerthu** bocs anrhegion, a dw i'n postio i bob rhan o'r byd.

Eisiau mwy o wybodaeth? Dilynwch y ddolen yma: www.siopdwt.com

Eisiau mwy o syniadau? Dilynwch y dolenni yma:

- Siop lyfrau Cant a Mil
- Cwmni teganau Mwnci
- Caws Cosyn
- Gemwaith Gan Rhian
- Celf gan David Robinson



Llun: Helen Siop Dwt

Looking for Christmas gifts? Here are some ideas for you. We spoke to the owners of Jin Talog, Sketchy Welsh and Siop Dwt to learn more about their Learn Welsh journey, and what impact the language has had on their businesses.

POSAU




Dych chi'n hoffi posau?
Beth am drïo'r posau yma?
Mae'r atebion ar dudalen 27.

Dewiswch y gair cywir mewn cromfachau, a llenwch y grid.

Pos Nadolig

1. Christmas (Nadolig, neidio, neuadd, noswaith)
2. Festival (gyrru, gwell, gwan, gŵyl)
3. Lucky (ledled, lolfa, lwcus, licio)
4. Star (sbwriel, seren, sgorio, sillafu)
5. Message (neges, niwlog, noson, nabod)
6. Santa (Siôn Jones, Siôn Carn, Siân Corn, Siôn Corn)
7. Eve (neithiwr, noswaith, noson, neuadd)



Chwilair Nadolig



a	ng	e	l	r	e	r	a	th	p	b	r	c	b	rh
g	i	o	g	w	y	l	s	g	f	u	ll	w	e	w
o	r	a	w	s	e	c	b	y	dd	g	s	u	i	m
r	o	i	a	l	m	n	th	m	ll	a	ch	n	u	p
ch	a	e	r	e	w	b	ff	l	o	i	t	r	a	p
p	n	o	l	g	e	rh	n	a	ph	l	i	l	a	g
e	rh	e	o	i	b	s	c	c	ll	u	p	u	t	i
l	j	m	d	a	w	n	s	i	o	a	n	a	c	d
rh	b	d	a	e	a	e	c	o	h	l	ll	i	e	e
p	w	o	th	u	o	b	n	m	e	o	i	d	c	g
e	y	f	l	th	rh	c	y	ng	e	r	dd	r	ng	i
a	t	e	u	l	u	r	d	s	c	a	rh	a	ll	d
w	a	d	c	b	n	m	r	t	u	c	a	c	e	n
i	o	p	l	ph	ff	t	i	n	s	e	l	ng	ll	e
c	e	r	dd	o	r	i	a	e	th	e	r	c	ng	b

agor
angel
anrhegion
bendigedig
bugail

bwyta
cacen
cardiau
carolau
cerddoriaeth

coeden
cyngerdd
dathlu
dawnsio
gwario

gŵyl
parti
teulu
tinsel
ymlacio

YMARFER SIARAD CYMRAEG

Eisiau ymarfer siarad Cymraeg? Dych chi'n gallu ymarfer siarad Cymraeg gyda ni! Beth am ddod i un o'r rhain?

Siawns am Sgwrs

Beth? Sgwrs ar-lein bob mis
Pryd? 19 Rhagfyr 2024 am 7yh

Penwythnos Cymraeg i'r Teulu, Llangrannog

Beth? Cyfle i ddysgu Cymraeg gyda'r teulu
Pryd? 28 Chwefror - 2 Mawrth 2025

Clwb darllen Gŵyl Amdani

Beth? Cyfle i ddarllen un o lyfrau Amdani, a holi'r awdur ar-lein
Pryd? 5 Mawrth 2025 am 7yh

Cofrestrwch ar dysgucymraeg.cymru

Siawns am Sgwrs

Ymunwch â thîm y Ganolfan Dysgu Cymraeg am sgwrs ar-lein unwaith y mis. Bydd grŵp ar bob lefel.

Join the Dysgu Cymraeg team to practise your speaking skills in an on-line chat once a month. All levels available.

Nos Iau, 19 Rhagfyr am 7pm-7.30pm


Cofrestru: dysgucymraeg.cymru
Sign up at learnwelsh.cymru



ATEBION Y POS

Pa air sy'n cuddio yn y blychau glas? Eira

Pos Nadolig



1	N	a	d	o	l	i	2	g
								w
	n	c	o	r	7	n		y
	ô					o	3	l
	i		th			s		w
6	s		i	a	w			c
	e							u
	g	e	5	n	e	r	e	4
								s

Atebion y Chwilair

a	n	g	e	l	r	e	r	a	t	h	p	b	r	c	b	r	h
g	i	o	g	w	y	l	s	g	f	u	l	w	e	w			
o	r	a	w	s	e	c	b	y	dd	g	s	u	i	m			
r	o	i	a	l	m	n	t	h	m	l	a	c	h	n	u	p	
ch	a	e	r	e	w	b	ff	l	o	t	t	r	a	p			
p	h	o	i	g	e	r	h	n	a	ph	l	i	l	a	g		
e	r	h	e	o	i	b	s	c	c	l	l	u	p	u	t	i	
l	j	m	d	a	w	n	s	i	o	a	n	a	c	d			
rh	b	d	a	e	a	e	c	o	h	l	l	i	e	e			
p	w	o	t	h	u	o	b	n	m	e	o	i	d	c	g		
e	y	f	l	th	rh	c	y	ng	e	r	dd	r	ng	i			
a	t	e	u	l	u	r	d	s	c	a	rh	a	l	l	d		
w	a	d	c	b	n	m	r	t	u	c	a	c	e	n			
i	o	p	l	ph	ff	t	i	n	s	e	l	ng	ll	e			
c	e	r	dd	o	r	i	a	e	th	e	r	c	ng	b			

Caru llyfrau?

Dewch i'n clwb darllen ni!

Cyfle i drafod llyfrau Amdani a holi rhai o'r awduron.

Pryd: 5/03/25 am 7yh
Pa lefel: Pob lefel
Cofrestru erbyn: 3/03/25

Love books?

Come to our reading club!

A chance to discuss the Amdani book series and quiz some of the authors.

When: 5/03/25 at 7pm
Which level: All levels
Register by: 3/03/25



Penwythnos Cymraeg i'r Teulu

Welsh for the Family Weekend

28 Chwefror - 2 Mawrth
28 February - 2 March 2025



Scan the QR code for a booking form.
Sgwria'r cod ar gyfer ffurfiem archeb.

Gwersi Cymraeg, gweithgareddau a hwyl i'r teulu cyfan.

Welsh lessons, activities and fun for all the family.

Llangrannog

Gwersyll yr Urdd



Hands down one of the most amazing weekends we've had as a family!
We left buzzing and full of Cymraeg!
Vicky Suter-Jones

Nadolig Haawen
a Blewyddyn
Newydd Dda!



dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Dysgu
Learn